



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion wedi'u cadarnhau o gyfarfod Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru
16 Mawrth 2022 am 09:30 drwy Microsoft Teams**

Yn Bresennol:		
Dyfed Edwards	(DE)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol
Mohammed Mehmet	(MM)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Hefyd yn Bresennol:		
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Karen Evans	(KEv)	Cyfarwyddwr Adnoddau (Busnes, Cyfathrebu a Chyllid), Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru
Angela Fisher	(AF)	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid
Eifion Jones	(EJ)	Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd
Lucy Jugessur	(LJ)	Rheolwr Archwilio Ariannol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru:
Jane Matthews	(JW)	Pennaeth Adrodd a Rheoli Ariannol, Cyllid
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
Verity Winn	(VW)	Archwilio Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cofnodion wedi'u cadarnhau o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol - 16 Mawrth 2022
------------------------	--

Ymddiheuriadau:		
Andrew Cottom	(AC)	Cynghorwr Annibynnol
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Ramim Khan	(RK)	Archwilio Cymru
Ysgrifenyddiaeth		
Andrew Morton	(AM)	Swyddog Cymorth y Bwrdd
Dechreuodd y cyfarfod am 09:30		
ACGC 7/2022 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb		
Agorodd DE y cyfarfod a chroesawu pawb a oedd yn bresennol. Gan fod yr ymateb i COVID-19 yn parhau, a chan ddilyn y canllawiau cenedlaethol, roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn electronig.		
Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn helpu i greu cofnodion cywir. Byddai'r recordiad hwn yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod nesaf ym mis Mai 2022.		
Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb a oedd wedi dod i law.		
ACGC 8/2022 Datgan Buddiannau		
Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.		
ACGC 9/2022 Y Gwasanaeth Archwilio Allanol		
ACGC 9.1/2022 Adroddiad Cynnydd y Gwasanaeth Archwilio Allanol		
Cafodd y Pwyllgor yr adroddiadau canlynol:		
• Diweddariad Cynnydd Archwilio Cymru (cyfeirnod 3.1a ACGC_2022_03_16), • Adroddiad 'Gofalu am y Gofalwyr?' (cyfeirnod 3.1b ACGC_2022_03_16) • Adroddiad Archwilio Blynnyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru 2021 (cyfeirnod 3.1c ACGC_2022_03_16).		
Rhoddodd VW wybod i'r Pwyllgor y byddai'r Pwyllgor yn cael adroddiad cynnydd ysgrifenedig yn y dyfodol.		
Nododd VW yr adroddiad 'Gofalu am y Gofalwyr?' a dweud bod ymateb y rheolwyr wedi'i drafod yn y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl ac roedd yn cael ei gyflwyno yn y Pwyllgor hwn fel eitem i roi sicrwydd.		
Yn dilyn ymholiad gan y Pwyllgor, esboniodd HB fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforol yn dal yn gyfrifol am oruchwylio'r broses archwilio, gan gynnwys cael sicrwydd am weithredu'r holl argymhellion a wnaeth yr archwilwyr yn ystod eu hadolygiad. Dywedodd fod y camau gweithredu i'r rheolwyr wrth ymateb i'r argymhellion hyn wedi'u cwblhau. Pan fydd pwnc adroddiad yn berthnasol i gylch gwaith un o Bwyllgorau'r Bwrdd, byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwnnw hefyd, er mwyn cael gweld		
Dyddiad: 16 Mawrth 2022	Fersiwn: Terfynnol.	Tudalen: 2

yr adroddiad ac ystyried yr argymhellion a wnaed yng nghyd-destun ei gynllun gwaith a'r meysydd y mae'n rhoi pwyslais arnyn nhw yn ei gylch gwaith.

Nododd a derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiadau a gyflwynwyd.

ACGC 10/2022	Y Gwasanaeth Archwilio Mewnol
ACGC 10.1/2022	Diweddariad am Gynnydd Archwilio Mewnol ac Adroddiadau Archwilio Mewnol

Cafodd y Pwyllgor yr Adroddiadau Archwilio Mewnol Terfynol canlynol (cyfeirnod 4 ACGC 2022_03_16):

- Adroddiad Cynnydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol;
- Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol Labordy IP5;
- Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol Pryderon a Chwynion.

Adroddiad Cynnydd

Rhoddodd PD ddiweddariad am gynnydd y Rhaglen Archwilio Mewnol.

Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol Labordy IP5

Dywedodd EJ mai adolygiad oedd hwn a gynhaliwyd ar ôl trosglwyddo'r labordy er mwyn darparu gwasanaeth y labordy yn ystod y pandemig. Roedd y sicrwydd cyffredinol yn rhesymol, gyda'r labordy wedi'i ddarparu o fewn y gyllideb ac i amserlen dynn.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a thrafod y cyd-destun, sef cydbwyso'r brys i ddarparu labordy IP5 yn gyflym. Esboniodd HG fod sefydlu IP5 a darparu'r prosiect hwn yn ddigynsail, gyda'r amser rhwng y comisiynu a'r cyflawni yn gwt a dri mis.

Diolchodd TC i'r staff yn y sefydliad a oedd wedi cyflawni'r prosiect hwn, a hwythau wedi bod yn rhagorol wrth gyflawni'n gyflym ac ar y fath raddfa.

Diolchodd DE i EJ am yr adroddiad, ac adleisio diolch y Pwyllgor i staff Iechyd Cyhoeddus Cymru am eu gwaith rhagorol yn cyflawni'r prosiect hwn o fewn y gyllideb ac yn gyflym. **Derbyniodd** y Pwyllgor yr adroddiad.

Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol Pryderon a Chwynion

Dywedodd LJ wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad yn rhoi sicrwydd rhesymol cyffredinol, gyda phump o argymhellion a oedd yn flaenoriaethau canolog.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch sut roedd y Bwrdd yn cael adroddiadau am gofnodi pryderon a chwynion. Cadarnhaodd HB mai ymateb y rheolwyr oedd adrodd i'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl yn rheolaidd.

Cyfeiriodd RBW at y gorgyffwrdd rhwng y Polisi Gweithio i Wella a'r Polisi Cwynion, ac awgrymodd y byddai hyn yn elwa o gael cysylltiadau rhyngddyn nhw ar sail Cymru gyfan.

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cofnodion wedi'u cadarnhau o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol - 16 Mawrth 2022	
Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad.		
ACGC 10.2/2022	Drafft o Gynllun Gwaith Archwilio Mewnol 2022-23	
Cafodd y Pwyllgor y Drafft o Gynllun Gwaith Archwilio Mewnol 2022-23, (cyfeirnod 4.2 ACGC_2022_03_16)		
Cyflwynodd PD y drafft o Gynllun Gwaith Archwilio Mewnol 2022-23, a rhoi gwybod i'r Pwyllgor fod y Cynllun wedi'i ddatblygu gyda chyfraniadau gan yr holl swyddogion gweithredol. Pwysleisiodd y byddai'r cynllun yn parhau'n hyblyg yn ystod y flwyddyn, yn ôl y galw.		
Gofynnodd JW a oedd unrhyw archwilio ar y cyd yn digwydd pan oedd meysydd gwaith yn gorgyffwrdd â gwaith sefydliadau eraill. Dywedodd PD fod pob sefydliad yn cael ei archwilio ar wahân. Dywedodd VW fod cylch gwaith Archwilio Cymru yn ei alluogi i archwilio mwy nag un sefydliad pan oedd hynny'n addas.		
Cymeradwyodd y Pwyllgor Gynllun Gwaith Archwilio Mewnol 2022-2023.		
ACGC 10.3/2022	Cofnod o Gamau Gweithredu Archwilio (Archwilio Allanol a Mewnol)	
Cafodd y Pwyllgor y Cofnod o Gamau Gweithredu Archwilio (cyfeirnod 4.2 a b ACGC_2022_03_16).		
Holodd y Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer y cam gweithredu a oedd yn ymwneud â'r Strwythur Adrodd am Risgiau yn y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant. Esboniodd TC fod y gwaith hwn wedi'i ohirio dros dro, tan y bydd y broses bresennol o uno'r Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant a Chyfarwyddiaeth Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd wedi'i chwblhau.		
Aeth y Pwyllgor ati i wneud y canlynol:		
- Ystyried y diwygiadau i'r Cofnod o Gamau Gweithredu Archwilio; - Cymeradwyo'r cais i gyflwyno dyddiadau gweithredu diwygiedig yn Adran 3.1 yr adroddiad; - Cymeradwyo'r camau gweithredu yn Adran 3.2 yr adroddiad sydd wedi'u cwblhau, a chytuno i'w cau.		
ACGC 11/2022	Cyllid a Chaffael	
ACGC 11.1/2022	Adroddiad ar Berfformiad Ariannol	
Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar lafar gan HG am y sefyllfa ariannol bresennol, gan ganolbwyntio ar gwblhau'r broses o gau'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn.		
Nododd y Pwyllgor y byddai Adroddiad Ariannol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar ddiwedd y mis.		
Dyddiad: 16 Mawrth 2022	Fersiwn: Terfynnol.	Tudalen: 4

ACGC 11.2/2022	Adroddiad Caffael
Cafodd y Pwyllgor bapur yr adroddiad Caffael (cyfeirnod 5.2 ACGC_2022_03_16). Cafodd y Pwyllgor sicrwydd bod y gwaith caffael yn cael ei wneud yn unol a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.	
ACGC 11.3/2022	Colledion a Thaliadau Arbennig
Cafodd y Pwyllgor y diweddariad am golledion a thaliadau arbennig (cyfeirnod 5.3 ACGC_2022_03_16), a oedd yn cynnwys diweddariad penodol am gymeradwyo colledion yn sgil stoc profi traul. Rhoddodd HG grynodedb o gefndir y ddau fater a ddisgrifid yn y papur. Roedd y naill a'r llall yn berthnasol i ddiffiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru o golledion, ac yn berthnasol i ddarpariaethau'r bennod ar golledion a thaliadau arbennig yn y llawlyfr cyfrifon; roedd hyn hefyd yn adlewyrchu'r gofynion a geir yn y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. Roedd gwerth y golled yn fwy na'r terfyn a ddirprwywyd i Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac roedd Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r cais i ddileu'r golled. Rhoddodd HG wybod i'r Pwyllgor y byddai angen gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd ar ôl y drafodaeth yn y Pwyllgor hwn. Esboniodd HG y sefyllfa o ran stoc profi traul Covid a oedd yn rhy hen. Roedd y gweithgynhyrchwr wedi gweithio drwy gydol y pandemig â'r sefydliad, gan allu ymestyn y dyddiad dod i ben ar ôl profi i wneud y defnydd gorau o'r stoc a oedd ar gael. Dim ond drwy gydweithrediad y Gweithgynhyrchwr a'i ddefnydd o dechnoleg cymharol newydd yr oedd hyn yn bosibl. Roedd problem wedi codi yn Lloegr a chafodd hynny effaith ddilynol yng Nghymru, gan arwain at beidio â defnyddio'r cyfarpar profi am nifer o ddiwrnodau. Roedd hyn wedi cyd-fynd â defnydd llai o stoc, gan olygu bod stoc ar ôl gan y sefydliad a'i ddyddiad dod i ben wedi mynd heibio. Roedd y sefydliad wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynghylch hyn ac wedi cyflwyno'r ffurflen ddileu a oedd wedi'i chynnwys ym mhapurau'r cyfarfod. Esboniodd TC fod Llywodraeth Cymru wedi newid ei pholisi er mwyn defnyddio labordai Goleudy, a golygai hyn fod y defnydd o ddeunyddiau traul wedi gostwng, a bod gan y stoc oes silff fer. Mae'r ffaith bod y defnydd o brofion llif unffordd gartref wedi cael eu hyrwyddo ers hynny wedi arwain at ragor o ostyngiad yn nifer y profion PCR sy'n cael eu gwneud yn y labordai. Rhoddodd HG ddiweddariad ar lafar wedyn am ddileu stoc profion Ortho Clinical Diagnostics. Gofynnodd DE i'r Pwyllgor ystyried natur unigryw y digwyddiad hwn a chafwyd trafodaeth estynedig wedyn, gan gynnwys trafod y canlynol: Sicrhau bod pob opsiwn posibl wedi'i ystyried ar gyfer gwneud defnydd posibl o'r stoc.	

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cofnodion wedi'u cadarnhau o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol - 16 Mawrth 2022
------------------------	--

- Byddai trafodaethau â'r gweithgynhyrchwr yn sicrhau bod modd gwaredu'r stoc yn ddiogel ac yn y ffordd iawn.
- Roedd angen creu cynllun cyfathrebu addas ar gyfer y mater hwn.
- Roedd cyngor cyfreithiol wedi'i roi ynghylch y broses briodol i ddatrys y mater hwn.

Cytunodd y Pwyllgor i **gefnogi**’r cynigion a gyflwynwyd gan HG, gan nodi y byddai'r Bwrdd yn cael adroddiad yn ei gyfarfod ar 31 Mawrth 2022.

ACGC 12/2022	Sicrwydd blynyddol y cyrff sy'n cael eu lletya
ACGC 12.1/2022	Datganiad Sicrwydd Blynyddol Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru

Cafodd y Pwyllgor Ddatganiad Sicrwydd Blynyddol Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru 2022-23 (cyfeirnod 6.1 ACGC_2022_03_16).

Cyflwynodd KEv yr adroddiad i'r Pwyllgor. Nododd fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn lletya Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru ar ran GIG Cymru o dan gytundeb lletya ffurfiol. Roedd gofyn i Gydweithrediaeth y GIG ddarparu Datganiad Sicrwydd Blynyddol i Iechyd Cyhoeddus Cymru i gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r trefniadau lletya, gan amlygu unrhyw feysydd sy'n achosi pryder neu risg, neu achosion o beidio â chydymffurfio.

Tynnodd KEv sylw at danwariant yn yr adroddiad, a dweud bod hyn wedi deillio o gynnydd yn y cyllid ar gyfer nifer o brosiectau a oedd wedi llithro yn sgil effeithiau pandemig Covid.

Yn dilyn ymholiad am sut roedd y Gydweithrediaeth yn cael ei harchwilio, cadarnhawyd mai'r corff sy'n lletya sy'n gyfrifol am graffu drwy'r broses archwilio, ond gallai Archwilio Cymru graffu ar y Gydweithrediaeth o dan y cylch gwaith a roddwyd iddo gan Lywodraeth Cymru i graffu ar bob corff cyhoeddus yng Nghymru.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru wedi cydymffurfio â'r trefniadau lletya a geir yn y cytundeb lletya.

ACGC 13/2022	Cydymffurfio â'r Trefniadau Llywodraethu Blynyddol
ACGC 13.1/2022	Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad a amlinellai hunanasesiad y sefydliad o'r modd mae'n cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol (ref 7.1 ACGC.2022.03.16).

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydymffurfio

Dyddiad: 16 Mawrth 2022	Fersiwn: Terfynnol.	Tudalen: 6
--------------------------------	----------------------------	-------------------

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cofnodion wedi'u cadarnhau o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol - 16 Mawrth 2022		
â Chod Ymarfer 2017 ynghylch llywodraethu corfforaethol yn adrannau canolog y llywodraeth.			
ACGC 13.2/2022		Datgan Buddiannau – Diweddariad Chwemisol	
Cafodd y Pwyllgor y papurau ynghylch Datgan Buddiannau – Diweddariad Chwemisol (cyfeirnod 7.2a ACGC.2022.03.16).			
Cafodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch gweithredu'r Polisi Datgan Buddiannau, Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd a'r Weithdrefn Datgan Buddiannau, Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd.			
ACGC 13.3/2022		Drafft o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol	
Rhoddodd LB ddiweddariad byr ar lafar am y cynnydd wrth ddatblygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a chadarnhaodd y broses ar gyfer cymeradwyo'r drafft sydd i'w gyflwyno i Archwilio Cymru ym mis Mai. Cadarnhaodd LB nad oedd gofyniad i gynnwys Datganiad Ansawdd Blynyddol nac Adroddiad Cynaliadwyedd yn yr Adroddiad Blynyddol eleni.			
Nododd y Pwyllgor y diweddariad.			
ACGC 14/2022		Rheoli Risgiau (Strategol a Chorfforaethol)	
Cafodd y Pwyllgor y Gofrestr Risgiau Strategol a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol (cyfeirnod 8 ACGC.2022.03.16).			
Rhoddodd RBW wybod i'r Pwyllgor bod adolygiad o brosesau risg wrthi'n cael ei gynnal yn y sefydliad, a chyfeiriodd at y cynllun datblygu ar gyfer risgiau a oedd wedi'i gyflwyno.			
Ystyriodd y Pwyllgor y Cofrestri Risgiau Strategol a Chorfforaethol a chafodd sicrwydd bod risgiau strategol a chorfforaethol y sefydliad yn cael eu rheoli'n iawn.			
ACGC 15/2022	Adroddiad Gwybodaeth	Chwarterol	Llywodraethu
Cafodd y Pwyllgor yr Adroddiad Chwarterol Llywodraethu Gwybodaeth (cyfeirnod 9 ACGC.2022.03.16).			
Tynnodd JL sylw at y canlynol:			
- Mae nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau am fynediad at ddata gan y testun yn dal yn uchel. - Mae'n bosibl y gallai'r Ymchwiliad Cyhoeddus gynyddu nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ymhellach. - Roedd adroddiadau am dri achos o dorri'r rheolau data wedi'u hanfon at y Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y cyfnod hwn. Roedd Swyddfa'r			
Dyddiad: 16 Mawrth 2022	Fersiwn: Terfynnol.	Tudalen: 7	

Comisiynydd Gwybodaeth wedi cadarnhau nad oedd angen cymryd camau pellach yn achos dau ddigwyddiad, ac nid oedd penderfyniad wedi'i wneud eto am y trydydd achos.

Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch effaith bosibl yr Ymchwiliad Cyhoeddus ar niferoedd y ceisiadau rhyddid gwybodaeth, a gofynnwyd am dynnu sylw'r Tîm Busnes Gweithredol at hyn.

Camau gweithredu: RBW

Mynegodd y Pwyllgor bryderon am lefelau cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol ym maes Llywodraethu Gwybodaeth. Dywedodd HB fod y ffigurau presennol yn dangos mymryn o welliant, a bod y ffigurau ynghylch y tîm Corfforaethol yn ymwneud â nifer cymharol fychan o unigolion ac o ganlyniad dylid edrych ar y ganran yn y cyd-destun hwnnw. Awgrymodd y Pwyllgor y gellid cynnwys y gwir ffigurau yn y dyfodol i egluro hyn.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod y System Rheoli Llywodraethu Gwybodaeth yn gweithio'n effeithiol.

ACGC 16/2022 Diweddariad am Seiberddiogelwch

Cafodd y Pwyllgor y Diweddariad am Seiberddiogelwch, a'i ystyried (cyfeirnod 10 ACGC_2022_03_16).

Rhoddodd HG wybod i'r Pwyllgor fod Gofal Iechyd Digidol Cymru wrthi'n adolygu trefniadau seiberddiogelwch holl gyrff y GIG yng Nghymru. Ar ôl cwblhau'r adolygiad hwn, byddai'r Pwyllgor yn ystyried gwneud gwaith archwilio dwfn, gan gynnwys ystyried unrhyw gamau gweithredu ar gyfer rheolwyr.

Cam gweithredu: HG/LB

Nododd y Pwyllgor y diweddariad a roddwyd.

ACGC 17/2022 Trefniadau Llywodraethu'r Pwyllgor

ACGC 17.1/2022 Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi

Cafodd y Pwyllgor gofnodion a chofnod o gamau gweithredu'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2022 (cyfeirnod 11.1a a b ACGC_2022_03_16).

Cymeradwywyd y cofnodion fel rhai gwir a chywir o'r cyfarfod, yn amodol ar wneud y diwygiad canlynol:

"Nododd VW fod yr adroddiad yn un cadarnhaol, heb unrhyw argymhellion yn ymwneud â Chynllunio Gweithredol, ac un argymhelliad bach yn ymwneud â Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Ariannol, mater y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi mynd i'r afael ag ef."

Ystyriodd y Pwyllgor y cofnod o gamau gweithredu a **chytunodd** fod dau gam gweithredu wedi'u cwblhau.

ACGC 17.2/2022 Cadarnhau adroddiadau sydd wedi'u cylchredeg y tu allan i'r Pwyllgor

Cyflwynodd LB yr adroddiad, gan nodi bod pedwar adroddiad wedi'u cylchredeg y tu allan i'r Pwyllgor ar 11 Chwefror 2022, sef:

- Adroddiad Archwilio 2021;
- Cofnod o Gamau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio
- Adroddiad Archwilio Mewnol IP5
- Diweddariad Chwemisol Cylchlythyron Iechyd Cymru

Aeth y Pwyllgor ati i wneud y canlynol:

- **Cadarnhau** ei fod wedi cael yr adroddiadau sydd wedi'u cylchredeg i'r Pwyllgor y tu allan i'r broses gyfarfod arferol;
- **Cadarnhau** nad oedd angen gweithredu pellach

ACGC 17.3/2022 Cynllun gwaith y Pwyllgor a'r hyn sydd ar y gweill

Nododd y Pwyllgor y cynllun gwaith a'r hyn sydd ganddo ar y gweill yn 2022/23 (cyfeirnod 11.3 ACGC 2022_03_16).

ACGC 18/2022 Eitemau i'w Nodi

ACGC 18.1/2022 Diweddariad am Lywodraethu Integredig

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad am Lywodraethu Integredig.

ACGC 18.2/2022 Adroddiad Cynnydd ar Atal Twyll

Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd ar Atal Twyll (cyfeirnod 12.2 ACGC 2022_03_16).

ACGC 19/2022 Materion Gweinyddol i Gloi

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Iau, 5 Mai 2022, 09:30, Ystafell 3.7, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Capital Quarter a drwy Microsoft Teams

Nododd y Pwyllgor y bydd holl bapurau'r Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi, ac **eithrio**:

- Colledion a Thaliadau Arbennig
- Yr Adroddiad Caffael
- Seiberddiogelwch
- Risgiau Strategol

Diolchodd DE i bawb am eu cyfraniadau yn ystod y cyfarfod, a gofynnwyd i bawb a oedd yn bresennol roi adborth am ba mor effeithiol y cynhaliwyd y cyfarfod.

Gwahoddodd DE unrhyw adborth pellach, gan ddweud y dylid ei anfon drwy e-bost ato ef neu at Liz Blayney ar ôl y cyfarfod.

Daeth y Cyfarfod i ben am 12:25

Wedi'i Gadarnhau